Y Diweddaraf am Bartneriaeth Cymunedau'n Gyntaf
Parc Sgeti – 29 Gorffennaf, 2009

Mae'r tîm Cymunedau'n Gyntaf wedi gwneud cynnydd sylweddol ym Mharc Sgeti. Rydym wedi gweithio tuag at gyflawni nodau ein rhaglen waith. Fodd bynnag, yn ystod ein gwaith, mae nodau ac amcanion eraill wedi dod yn amlwg. Mae'r ddogfen ganlynol yn grynodeb o'n gwaith:

MAES GWAITH: Swyddi, Busnes a Chreu Incwm

Hyfforddi a Chefnogi Cyflogaeth

Rydym wedi gweithio gyda nifer o sefydliadau, gan arwain at drefnu cymorthfeydd cyngor a chefnogaeth wythnosol yn swyddfa Cymunedau'n Gyntaf, 134 Clyne Court. Mae'r gwasanaeth hwn yn profi'n fuddiol i bobl leol sy'n ceisio cyngor ar ddechrau gweithio neu hyfforddi, gydag arian ar gael i'w cefnogi wrth wneud hyn.

Cyngor a gwasanaethau ariannol yn y gymuned

Wrth weithio gyda Chyngor Ar Bopeth ac Undeb Credyd LASA, rydym yn cefnogi'r ddarpariaeth leol o gymorthfeydd cyngor ariannol a chyfleuster Undeb Credyd lleol. Rydym hefyd yn gweithio ar y posibilrwydd o gefnogi sgiliau rheoli ariannol a chyllidebu i bobl rhwng 11 ac 16 oed. Mae llawer o'r gwaith hwn wrthi'n cael ei gynllunio; ond, mae Undeb Credyd LASA wedi cadarnhau ei fwriad i sefydlu sesiwn wythnosol ym Mharc Sgeti, mewn partneriaeth â Chymunedau'n Gyntaf

MAES GWAITH: Addysg a Hyfforddiant

Cyfleoedd Hyfforddi a Dysgu

Rydym wedi siarad â llawer o grwpiau yn y gymuned i greu darlun o anghenion hyfforddi lleol ac wedi hwyluso hyfforddiant i 8 grŵp mewn hylendid bwyd eleni. Ar hyn o bryd, rydym yn ystyried cyflwyno dysgu i'r gymuned. Byddwn yn gweithio gyda darparwyr amrywiol i gynnig sesiynau rhagflas, er mwyn sefydlu rhai cyrsiau lleol.

Fel rhan o'n gwaith amgylcheddol, rydym yn ystyried sefydlu hyfforddiant, a ddarperir gan Abertawe Gynaliadwy, mewn ffotograffeg ddigidol, sy'n gysylltiedig â'r gymuned leol.

MAES GWAITH: Diogelwch Cymunedol

PACT a CSAT

Rydym wedi gweithio gyda Heddlu Cymdogol a'n Swyddog Cefnogaeth Gymunedol yr Heddlu lleol i gefnogi eu gwaith yn PACT (Partneriaethau a Chymunedau Gyda'i Gilydd). Cynhelir cymorthfeydd PACT a Chymunedau'n Gyntaf rheolaidd yn y gymuned. Mae'r cymorthfeydd hyn yn rhoi'r cyfle i bobl drafod yn gyfrinachol eu pryderon a'u profiadau lle maent yn byw. Ynghyd â'n SCCH, rydym yn

gweithio i gynyddu arweinyddiaeth gymunedol yng nghyfarfodydd PACT. Mae pobl ifanc yr ardal yn ymchwilio i gyfarfodydd PACT Ieuenctid.

MAES GWAITH: Plant a Phobl Ifanc

10 oed ac iau

Ar ein diwrnod hwyl ym mis Mawrth, nodwyd pryder lleol am ddiffyg darpariaeth a chyfleusterau i bobl ifanc 10 oed ac iau. Ers hynny, rydym wedi gweithio gyda'r awdurdod lleol wrth gyflwyno sesiwn chwarae ym mis Ebrill, lle gwelsom lu o bobl, yr oedd llawer ohonynt o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig.

Rydym bellach yn gweithio gyda'r Adran Chwarae leol i ystyried cyfleoedd ar gyfer darpariaeth yn y dyfodol ym Mharc Sgeti, gan gynnwys ariannu cynlluniau chwarae yn y dyfodol.

Pobl ifanc 11-25 oed

Rydym yn mynychu cyfarfodydd â sefydliadau partner amrywiol, gan gynnwys yr heddlu a'r gwasanaeth ieuenctid, am ddatblygu cyfleoedd i bobl ifanc yn ardal Parc Sgeti. Mae rhai ystyriaethau wedi cynnwys llochesau ieuenctid, canolfannau ieuenctid, cyfleusterau galw heibio, gwaith a gweithgareddau i ieuenctid. Rydym hefyd yn cefnogi cyflwyno gwasanaethau i ieuenctid a gwaith allgymorth lleol.

Tîm Gweithredu Ieuenctid

Mae gwaith wedi dechrau ar ddatblygu Tîm Gweithredu Ieuenctid, grŵp o bobl ifanc leol, wedi'i drefnu a'i gefnogi i ddweud beth yw eu hanghenion a'u dyheadau. Gyda'r TGI, gallwn weithio i gyflwyno newid a budd i bobl ifanc Parc Sgeti. Mae'r cyfleoedd a ystyriwyd hyd yn hyn yn cynnwys clybiau ieuenctid, niwsans ieuenctid canfyddedig, mentrau busnes bach a gweithgareddau chwaraeon.

Mae rhan o ddatblygu gwasanaethau a TGI yn cynnwys llunio holiadur ymgynghori, mewn partneriaeth ag ysgolion Olchfa a'r Esgob Gore, er mwyn canfod materion, anghenion a phryderon disgyblion 11-16 oed.

Antur Abertawe

Mae Cymunedau'n Gyntaf Parc Sgeti'n trefnu cynnwys 200 o bobl ifanc 14-19 oed, i fynd i ddau ddiwrnod o chwaraeon, fforio ac ymarferion adeiladu tîm ym Mhorth Einon. Gan ein bod ni'n cydlynu ac yn arwain y prosiect, bydd o leiaf 20 o bobl ifanc o Barc Sgeti'n gallu mynd, gyda'r gweddill yn dod o'r 9 ardal Cymunedau'n Gyntaf arall. Bydd y prosiect hwn yn arwain at ragor o gyfleoedd am weithgareddau dysgu ac awyr agored.

Wythnos y Môr-ladron

Yn dilyn ein hymgynghoriad ynghylch Diwrnod Hwyl ym mis Mawrth, rydym yn hwyluso Wythnos Môr-ladron 5 niwrnod rhwng 10 a 14 Awst. Gan weithio gyda nifer o sefydliadau, byddwn yn cynnal ac yn cefnogi llawer o weithgareddau hwyl. Mae diben deublyg i'r digwyddiad hwn: 1) cynnig gwasanaeth lleol yn ystod gwyliau'r haf, a 2) parhau â'n gwaith ymgynghori sy'n ein galluogi i gyfeirio datblygu gwasanaethau yn y dyfodol.

MAES GWAITH: Iechyd a Lles

Cyffuriau a Chamddefnyddio Sylweddau

Mae ein cynhwysiad yn y Tîm Gweithredu yn erbyn Camddefnyddio Sylweddau, ein gwaith ym maes gwasanaethau lleol, gan gynnwys tai, a'n hadborth o ddiwrnod hwyl mis Mawrth, ynghyd â'n profiadau ein hunain, wedi cynyddu ymwybyddiaeth o faterion camddefnyddio sylweddau lleol. O ganlyniad, rydym yn gweithio tuag at ddatblygu rhagor o gefnogaeth leol i'r rhai sy'n dioddef o gamddefnyddio sylweddau a phroblemau cysylltiedig.

MAES GWAITH: Pobl Hŷn

Hyd yn hyn, mae Cymunedau'n Gyntaf wedi chwarae rôl wrth gefnogi llawer o sefydliadau lleol a grwpiau o bobl hŷn. Ynghyd ag ymgyrch 50+, Hazel Court a chynlluniau lloches eraill, rydym yn gweithio tuag at sicrhau bod llais cryf a chadarnhaol gan y grŵp hwn wrth ddatblygu eu cymuned.

Mae gweithgareddau'r dyfodol, sy'n cael eu hystyried ar hyn o bryd, yn cynnwys dysgu rhwng cenedlaethau ac adrodd storïau'n ddigidol.

MAES GWAITH: Yr Amgylchedd

Prosiectau amgylcheddol lleol

Gyda Threfi Taclus, rydym yn gweithio i ddechrau nifer o brosiectau gwella'r amgylchedd lleol dan arweiniad y gymuned. Mae Clyne Court a Chae Parry'n fannau datblygu posibl. Drwy weithio gyda'r trigolion lleol, byddwn yn nodi ardaloedd i fynd i'r afael â hwy. Byddwn yn ceisio datblygu'r prosiectau hyn gyda phartneriaid eraill, gan gynnwys Cadwch Gymru'n Daclus ac Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Cymru.

Mae Abertawe Gynaliadwy a Chymunedau'n Gyntaf yn gweithio ar gyflwyno sesiwn ffotograffiaeth ddigidol fer a fydd yn cynyddu sgiliau a dysgu, codi ymwybyddiaeth o fuddion amgylcheddol lleol ac yn amlygu meysydd pryder y gellir mynd i'r afael â hwy yn y dyfodol.

Mae Ysgol Gynradd Parklands yn arbennig o gefnogol o brosiectau amgylcheddol lleol, sy'n gysylltiedig ag ecogyngor yr ysgol. Rydym yn gobeithio eu cefnogi wrth ddatblygu'r bywyd gwyllt yn yr ardal o'u cwmpas.

Ar wahân i ystyried cyfleoedd ailgylchu ac ailgylchu lleol, rydym yn bwriadu cydlynu ymgyrch ysgubo'n hwyrach yn y flwyddyn.

MAES GWAITH: Cyfranogiad

Cymdeithas Tenantiaid a Thrigolion Clyne Court

Fel swyddfa agored, rydym wedi cael nifer o drigolion lleol yn galw mewn i roi gwybod i ni am eu pryderon, i ofyn cwestiynau ac i gynnig eu cefnogaeth i'r rhaglen Cymunedau'n Gyntaf. Yn ystod rhai o'r ymweliadau hyn ac wrth drafod â'r adran dai a'n cynghorwyr lleol, codwyd awydd sefydlu Cymdeithas Tenantiaid a Thrigolion ar gyfer blociau Clyne Court. Rydym yn cyfarfod â thenantiaid o Clyne Court ym mis Awst i symud sefydlu TRA yn ei flaen.

Datblygu a Chefnogi Grwpiau

Mae llawer o'r grwpiau ym Mharc Sgeti wedi cael cymorth wrth wneud cais am arian, cefnogaeth, hyfforddiant neu arweiniad. Yn ystod y cyfnod byr ers sefydlu'r tîm Cymunedau'n Gyntaf, mae perthnasoedd gwaith wedi'u ffurfio â grwpiau. Rydym wedi dechrau cynnal asesiadau anghenion a fydd yn ein helpu i roi cefnogaeth effeithiol i grwpiau a hwyluso hyfforddiant priodol lle bydd angen.

Tîm Gweithredu Lleol

Mae ein rhaglen waith yn cynnwys targedu sefydlu Tîm Gweithredu Lleol a fydd yn helpu i gynnal digwyddiadau a gweithgareddau cymunedol. Rydym wedi gweithio gyda nifer o sefydliadau, gan gynnwys grwpiau cymunedol, i drefnu a chyflwyno ein Diwrnod Hwyl ym mis Mawrth, hyfforddiant hylendid bwyd a'r Wythnos Môr-ladron sydd ar ddod. O'r grŵp hwn, rydym yn gobeithio sefydlu aelodaeth graidd a fydd yn gweithio tuag at ddatblygu a chyflwyno gweithgareddau amrywiol wedi'u targedu.

Bwrdd Partneriaeth Cymunedau'n Gyntaf

Gwnaethpwyd cynnydd sylweddol wrth feithrin perthnasoedd a chysylltiadau â phartneriaid ac aelodau'r gymuned. Ar ôl ein cyfarfod cychwynnol ym mis Gorffennaf, bydd cyfarfod â sefydliadau a darparwyr gwasanaeth ym mis Medi. Cynhelir ein cyfarfod cyntaf fel partneriaeth ar y cyd Ym mis Hydref.

Digwyddiadau Diwrnod Hwyl

Y Diwrnod Hwyl hwn oedd y digwyddiad cyntaf a gyflwynwyd gan dîm Cymunedau'n Gyntaf Parc Sgeti. Cafodd ei drefnu i alluogi'r tîm i gwrdd â mwy o drigolion, cyflwyno'r tîm a'r rhaglen Cymunedau'n Gyntaf, casglu barn gychwynnol y gymuned am faterion lleol, nodi pobl leol sydd o bosibl â diddordeb mewn Cymunedau'n Gyntaf, sydd efallai â sgiliau a phrofiadau i'w cynnig i'r rhaglen.

Ystyriwyd y digwyddiad yn un llwyddiannus iawn gyda rhwng 200 a 250 o bobl yno. Llenwodd 110 o bobl holiaduron adborth. Hyd y digwyddiad oedd 2 awr a hanner. Roedd pobl yn chwarae rhan fawr yn y gweithgareddau a'r ymgynghoriad a gynhaliwyd. O ganlyniad i'r diwrnod hwn, nodwyd materion a phartneriaid cymunedol posibl a ffurfiwyd/datblygwyd cysylltiadau cryfion ymysg grwpiau.

Ymgynghoriad a sesiynau cymhorthfa

Rydym wedi ymgynghori â thrigolion Parc Sgeti ar gyfleusterau a gwasanaethau ieuenctid, gwaith ac anghenion grwpiau cymunedol lleol, a phryderon a barn cyffredinol trigolion. Rydym wedi sefydlu'r mecanweithiau canlynol ar gyfer ymgynghori ac adborth: Sesiynau cymhorthfa rheolaidd Cymunedau'n Gyntaf yn Eglwys Parklands Canolfan Gymunedol a Rhanbarthol Parc Sgeti , Hazel Court; blychau awgrymu yn y Ganolfan Gymunedol, Swyddfa Dai Clyne Court, swyddfa'r post a'r swyddfa Cymunedau'n Gyntaf. Mae holiaduron cylchlythyr, digwyddiadau lleol, asesiadau anghenion grwpiau a'n gwefan yn ddulliau ymgynghori eraill sydd ar gael. Bydd yr holl wybodaeth ac adborth yn arwain ein gwaith a'n datblygiad.

Cronfa Ymddiriedolaeth

Fe wnaethom gefnogi grwpiau cymunedol yn eu ceisiadau am Gronfa Ymddiriedolaeth Cymunedau'n Gyntaf. Dynodwyd £5,000 ar gyfer Parc Sgeti rhwng mis Ebrill 2008 a mis Mawrth 2009. Fodd bynnag, roeddem yn gallu cefnogi grwpiau wrth sicrhau dros £8,000 ar gyfer y cyfnod, er mai dim ond ychydig dros fis cyn y dyddiad cau y daeth staff i'w swyddi. Elwodd un ar ddeg o grwpiau ar gronfa'r llynedd. Eleni, rhwng mis Ebrill 2009 a mis Mawrth 2010, dyrannwyd £10,000 i Barc Sgeti .

Darparwyr Gwasanaeth

Mae Cymunedau'n Gyntaf wedi cwrdd â darparwyr gwasanaeth a sefydliadau ym mhob agwedd ar Fframwaith y Weledigaeth: Swyddi, Creu Busnes ac Incwm, Addysg a Hyfforddiant, Diogelwch Cymunedol, Plant a Phobl Ifanc, Iechyd a Lles, yr Amgylchedd. Rydym wedi codi proffil Parc Sgeti ymysg yr awdurdod lleol, darparwyr gwasanaeth a sefydliadau. Wrth i'n partneriaeth Cymunedau'n Gyntaf ddatblygu, bydd cyfranogiad uwch gan yr holl sefydliadau, gan roi cynnydd mewn gwasanaethau a chyfleusterau sy'n briodol i anghenion y gymuned.

MAES GWAITH: Gwybodaeth ac Ymchwil

Cylchlythyr

Rydym wedi creu ein rhifyn cyntaf o gylchlythyr Parc Sgeti, o'r enw parcsgeti.org. Mae'r cylchlythyr hwn yn addysgol, ac mae'n cynnwys erthyglau diddorol a mewnweledol o'r gymuned. Bydd y cylchlythyr yn datblygu gyda threigl amser, yn ôl cyfraniad ac arweiniad lleol. Bwriedir cyhoeddi'r cylchlythyr newydd yn yr hydref, gan greu un y tymor.

Gwefan

Mae ein gwefan, www.parcsketi.org, bron yn gyflawn. Mae strwythur y safle hwn yn barod; byddwn yn rhoi data ar y safle, gyda threigl amser ac wrth i waith ddatblygu. Mae'n safle addysgol a rhyngweithiol a fydd yn cynnwys ymgynghoriadau, adroddiadau, newyddion ac erthyglau lleol a dull ar gyfer cofrestru ymholiadau, sylwadau a diddordeb yng ngwaith Cymunedau'n Gyntaf a'n partneriaid.

Mapio a Phroffil Cymunedol

Rydym wedi dechrau gwaith ar fapio'r cyfleusterau, y grwpiau a'r sefydliadau a darpariaeth gwasanaethau ym Mharc Sgeti . Mae ein gwaith ymgynghori parhaol yn y gymuned, mewn partneriaeth â grwpiau a sefydliadau, yn helpu i amlygu'r anghenion a'r dyheadau. Mae'r gwaith archwilio hwn yn nodi'r bylchau mewn darpariaeth a heriau cysylltiedig.

Jason Williams
Cydlynydd Cymunedau'n Gyntaf Parc Sgeti

City and County of Swansea – Dinas a Sir Abertawe
Sketty Park communities first cymunedau yn gyntaf
Llywodraeth Cynulliad Cymru Welsh Assembly Government